**Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol y Celfyddydau ac Iechyd 26 Medi 2018**
**12.00 canol dydd, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel,**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

Cross Party Group
on Arts & Health

**Yn bresennol**
Jayne Bryant AC **(Cadeirydd)**
Bethan Sayed, AC
Maddie Rees, Staff Cymorth AC
Kate Eden, Cyngor, Cyngor Celfyddydau Cymru
Sian Tomos, Cyngor Celfyddydau Cymru
Angela Rogers, Engage Cymru
Nesta Lloyd-Jones, Conffederasiwn GIG Cymru
Sarah Goodey, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Prue Thimbleby, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simone Joslyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rhian Webber, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Andrea Davies, Therapïau Celf Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwladr
Rebecca Parker, Swyddfa John Griffiths AC
Rhiannon Tapp, Swyddfa John Griffiths AC
Helen Williams, Cyngor Celfyddydau Cymru (gwneud y cofnodion)

**Ymddiheuriadau**
Elizabeth Aylett, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Phil George, Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru
Sally Lewis, Rheolwr Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru
Ann Evans, Prif Swyddog Gweithredol a chynrychiolydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Croeso a chyflwyniadau gan y Cadeirydd, Jayne Bryant (JB) AC**
Croesawodd JB bawb i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am fod yn bresennol. Diolchodd JB i Eluned Morgan, cyn Gadeirydd y grŵp, a wnaeth gynnydd da ar waith y grŵp yn ei ddyddiau cynnar. Diolchwyd hefyd o waelod calon i'r holl aelodau am eu hamynedd wrth i newidiadau i aelodaeth y grŵp fynd rhagddynt, gan olygu bod llai o aelodau gan y grŵp bellach. Nododd JB y byddai Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r grŵp.

**Ail-gadarnhau pwrpas, cylch gorchwyl ac aelodaeth ddiwygiedig y Grŵp Trawsbleidiol ar Gelfyddydau ac Iechyd**
Dywedodd JB mai pwrpas y grŵp wrth symud ymlaen oedd codi ymwybyddiaeth o weithgareddau yn ymwneud â'r celfyddydau ac iechyd ymhlith yr ACau, gan bwysleisio manteision ymgysylltu â'r celfyddydau o ran iechyd a lles, ac, felly, galluogi'r grŵp i fod yn fwy dylanwadol yn wleidyddol. Nododd JB ei bod yn amser critigol o ran y Celfyddydau ac Iechyd, gyda sifft tuag at yr agenda atal o fewn y sector iechyd a thuag at un gwasanaeth di-dor rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n amlwg bod awydd ar hyn o bryd i archwilio dulliau amgen o wella iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl. Pwysleisiodd JB na fyddai'r grŵp yn dyblygu gwaith Rhwydwaith Celfyddydau Iechyd a Lles Cymru mewn unrhyw ffordd, a bod agenda cwbl wahanol ganddynt.

Diolchodd Kate Eden (KE) i JB am gadeirio'r grŵp. Roedd y sector, a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Roedd yn galonogol sefydlu'r grŵp ar ei newydd wedd a gallu bwrw ymlaen â'r gwaith o ddylanwadu ar bolisi a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y

gwaith rhagorol sy'n digwydd ym maes y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru. Nododd KE fod Cyngor y Celfyddydau wedi lansio ei Gynllun Corfforaethol newydd a bod yr agenda celfyddydau ac iechyd yn ganolog i'w waith yn y cam cynllunio nesaf. Roedd y Cyngor hefyd yn gweithredu argymhellion yr Adroddiad Mapio. Ymhlith y themâu allweddol a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg mae: iechyd meddwl, rhagnodi cymdeithasol, cryfhau'r sylfaen dystiolaeth a chodi ymwybyddiaeth o fanteision lles ymgysylltu â'r celfyddydau. Nododd Sian Tomos (ST) fod y celfyddydau ac iechyd yn rhan fawr o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bod Cyngor y Celfyddydau yn gweithio tuag at y nodau hyn ac yn rhannu arfer da gyda chyrff cyhoeddus eraill lle bo modd.

**Memorandwm cyd-ddealltwriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru/Cydffederasiwn GIG Cymru a chamau gweithredu allweddol**
Dywedodd ST fod llawer wedi ei gyflawni yn y 12 mis diwethaf, gan gynnwys llofnodi'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor Celfyddydau a Chydffederasiwn y GIG. Mae'r bartneriaeth hon yn parhau i weithio'n dda. Mae'r ddau sefydliad yn cwrdd bob mis i adrodd ar gynnydd a chyflawniadau ac maent yn gweithio tuag at yr amcanion a osodwyd yn y cynllun gwaith ar y cyd. Ychwanegodd Nesta Lloyd-Jones (NLJ) eu bod yn targedu unigrwydd yn arbennig, yn codi ymwybyddiaeth ynghylch hyn, ac yn dechrau cyfleu'r neges i ACau.

**Datblygiadau Byrddau Iechyd**
Rhoddodd pob cynrychiolydd a oedd yn bresennol o'r Byrddau Iechyd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn eu hardaloedd. Diolchodd JB i bawb am eu mewnbwn a nododd pa mor galonogol oedd clywed am y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru ym maes y celfyddydau ac iechyd. Cytunwyd y gellid cyflwyno'r rhain yn ysgrifenedig fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf fel y gellir eu rhannu yn ehangach.

**Datblygiadau Sector - Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru**
Rhoddodd Angela Rogers (AR) y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynghylch datblygiadau grŵp Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan y grŵp 170 o aelodau, mae'n cyfarfod 3 neu 6 gwaith y flwyddyn ac mae'n derbyn cyllid strategol gan Gyngor y Celfyddydau. Mae'r grŵp yn darparu llwyfan digidol i'r rhwydwaith er mwyn rhannu arfer gorau a gwybodaeth. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a byddant yn cael eu cynnal yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018. Diolchodd JB i AR am ei chyfraniad ar Rwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru.

**Cytuno ar flaenoriaethau a chyfleoedd allweddol ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol yn 2018-20**
Nododd Bethan Sayed (BS) fod arolwg bellach yn agored a oedd yn gofyn i bobl Cymru beth oeddent yn meddwl y dylai'r Pwyllgor Diwylliant ei flaenoriaethu a chynnal ymchwiliad iddo. Dylai'r canlyniadau fod ar gael tua 10 Hydref a'r nod yw cyhoeddi dogfen i'r grŵp hwn ei ystyried. Mae'r meysydd i'w dewis o fewn yr arolwg yn cynnwys:

- Llenyddiaeth yng Nghymru;
- Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion;
- Y rhan sydd gan y gymuned i'w chwarae er mwyn amddiffyn treftadaeth Cymru;
- Cefnogi ffurfiau celf draddodiadol ac unigryw Cymreig;
- Gwella amrywiaeth o ran y rheini sy'n darparu ac yn ymgymryd â'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru;
- Defnyddio'r Celfyddydau i wella iechyd a lles;

- Cymraeg yn y byd digidol

O ran cyfarfodydd yn y dyfodol, nododd Maddie Rees (MR) mai'r trefniant presennol oedd bod y grŵp yn cwrdd 3 neu 4 gwaith y flwyddyn gyda chyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunodd pawb i'r strwythur hwn. MR i ddosbarthu dyddiadau cyfarfodydd i'r grŵp.
**Cam Gweithredu: MR i ddosbarthu dyddiadau cyfarfodydd i'r grŵp.**

Awgrymodd JB y dylid gosod thema ar gyfer pob cyfarfod yn dibynnu ar ba faterion sy'n gyfredol a dywedodd y gallai pobl a oedd wedi elwa o fentrau celfyddydol ac iechyd ddod a rhoi tystiolaeth neu ddangos eu gwaith yn y cyfarfodydd. Mae'n bosibl y gellid rhoi hyn ar waith yn y cyfarfod nesaf. Awgrymodd ST y byddai'n bosib gweithio gyda Chydffederasiwn y GIG i osod agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
**Cam Gweithredu: ST i drafod eitemau posibl i'w rhoi ar yr agenda gyda'r Cadeirydd a Chydffederasiwn y GIG ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Diolchodd JB i bawb am fynychu'r cyfarfod a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r grŵp yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25.

*Paratowyd y cofnodion gan Helen Williams, Cynorthwyydd Personol, Cyngor Celfyddydau Cymru:*
*Helen.williams@artswales.com*